Beirniadaethau Eisteddfod Caerdydd 2022

Rhyddiaith Bl. 7-9

Pleser enfawr oedd cael mwynhau'r naw darn a ddaeth i law yn y gystadleuaeth hon, a hynny am fod y safon yn uchel iawn yn y categori yma. Mi wna i fentro dweud bod ein llenyddiaeth yn saff yn nwylo'r bobol ifanc â ymgeisiodd!

Roedd y testun- Gadael- wedi arwain yr awduron ar sawl trywydd; o ddyn ifanc yn mynd i ryfel i rywun yn ddigalon ar ddiwedd gwyliau; o alar amrwd i godi'n hwyr i drip ysgol. Fe wnes i fwynhau pob un o'r ymgeisiadau, ond rydw i am ganolbwyntio ar fy ffefrynnau yma.

Gan **Pompom** oedd linell agoriadol orau'r gystadleuaeth- *Dwi'n gwybod beth ydy gadael, ond alla i ddim dweud hwyl fawr.* Stori am golli tad mewn damwain car oedd yma, a'r galar yn ingol ac yn dorcalonnus. Roedd y cyfuniad o'r emosiynol a'r ymarferol yn gwneud yr hanes yn un realistig iawn.

Credaf fod **Hollol Tryloyw** yn hynod dalentog am greu tensiwn, ac mewn stori arswyd fel yr un yma, mae hynny'n ddipyn o gamp. Mae'n anodd iawn i sgwennu'n gynnil, ac i ddeall y ffordd mae defnyddio hyd brawddegau a geiriau i adeiladu tensiwn, ond roedd **Hollol Tryloyw** yn gwneud y pethau hyn yn hynod effeithiol. Roedd gen i ofn go iawn!

Stori syml iawn a gyflwynodd **Y Bardd,** ond roedd rhywbeth am y darn yma oedd yn dangos stamp awdur greddfol. Hanes gadael tŷ am y tro olaf oedd y stori, ond roedd y cynildeb a'r symlrwydd yn wirioneddol effeithiol.

Yn olaf, **Y Lleuad,** ein henillydd teilwng iawn, a gyfunodd gwyddonias a thensiynau teulu i greu stori ddifyr a dychrynllyd. Mae asteroid ar ei ffordd i'r ddaear ac mae'n rhaid i'r bobol adael y blaned hon am un arall. Roedd yr arddull mor aeddfed, y cymeriadau mor real, a'r stori mor ddiddorol. Dwi'n ysu am gael gwybod be' ddigwyddodd nesaf!

Diolch i'r holl gystadleuwyr, a llongyfarchion fil i **Y Lleuad.**

Rhyddiaith Bl. 10-13

Pedair ymgais a ddaeth i law, a chefais fwynhad o bob un, er eu bod nhw'n wahanol iawn i'w gilydd. Roedd y testun, *Siwrnai,* yn un oedd yn cynnig ystod eang o bosibiliadau i'r awduron.

'Sgwennu am gymdogion a wnaeth **Aran,** yn yr alegori yma am berthynas Cymry a Lloegr, neu yn hytrach, y Cymry a'r Saeson. Mae hoel darllenwr brwd ar y gwaith, yn arddull y sgwennu, a'r iaith sy'n lân yn ogystal â'r brawddegau sy'n llifo'n hawdd. Mae'r ddeialog, hefyd, yn teimlo'n gwbl naturiol.

Gwirionais fy mhen efo stori **Haf**, sy'n ffilmig ac yn gynnil ac yn llwyddo i greu awyrgylch mor arbennig. Mae'n disgrifio ei chymdoges, sy'n arlunydd, ac ar ôl esbonio ei bod hithau wedi cael gwersi arlunio gan y gymdoges, daw disgrifiad syml, hyfryd o wyliau i Gapel y Ffin. Mae **Haf** yn sgwennu o berspectif arlunydd, ac mae'r tirwedd a'r lliwiau yn baentiad hardd ym meddwl y darllenydd. Mae'n ffordd mor aruthrol o glyfar o sgwennu stori, ond tydy clyfar

ddim wastad yn ddigon. Mae gan yr awdur yma allu i greu cymeriadau real ac ymdeimlad cynnes, braf yn ei gwaith hefyd.

Ysgrif a gawn gan **Iorwg,** ac fe gefais fwynhad mawr o ddarllen am batrymau cymleth gwreiddiau coeden deulu'r awdur. Mae'r rhan am blentyndod ei Mam-gu yn y Preselau yn arbennig o flodeuog a barddonol, gan gynnwys ambell berl o ddigrifiad, fel *Roedd sŵn crawcian y brain yn y coed fel gwrando ar hen wragedd yn cloncian.* Mae yna obaith ffres iawn yn y darn yma o ryddiaith, a'r ffaith fod y teulu'n dychwelyd at y Gymraeg yn teimlo'n ddathliad hyfryd o ddiwylliant byw.

Ysgrif a gyflwynwyd gan **Swyn** hefyd, yn archwilio union natur siwrnai, a'r gwahanol fathau o siwrneai y bydd rhywun yn ei gymryd mewn bywyd. Mae'r syniad yn un difyr, gan groesi o'r llythrennol i'r trosiadol, ond y manion bychain personol oedd uchafbwyntiau'r ysgrif yma i mi, fel pan ddisgrifiodd **Swyn** daith i Ffrainc, a'r car yn llawn dop o ddillad a sain dewisiadau cerddorol ei brawd.

Haf sy'n mynd â hi eleni, a llongyfarchiadau mawr iddyn nhw am ei camp. Llongyfarchion i'r tri cystadleuydd arall hefyd, a diolch i chi am eich gwaith difyr.

Adolygiad

Rhaid i mi ddechrau gyda chyfaddefiad- Un gwael iawn ydw i am 'sgwennu adolygiadau, ac felly mae'n rhaid i mi godi 'nghap i'r deg adolygydd a ymgeisiodd yn y gystadleuaeth hon! Mae'n braf iawn cael dweud fod gan y cystadleuwyr lawer gwell crap na fi ar y ffurf, a bod y safon yn uchel iawn.

Mae'n ddifyr nodi fod pob un o'r cystadleuwyr wedi penderfynu adolygu llyfrau maen nhw wedi eu mwynhau, ac mae'n rhaid i mi gyfaddef fod hyn wedi bod yn destun rhyddhad. Tuedda adolygiadau negyddol fod yn fwy poblogaidd, ond mae darllen am frwdfrydedd rhywun tuag at lyfr yn brofiad llawer brafiach. Er hyn, mae'r adolygiadau yma wedi gwneud tolc go fawr yn fy nghyfrif banc i, gan 'mod i wedi prynu sawl un o'r llyfrau ar sail yr adolygiadau yma!

Dyma ambell sylw ar y rhai a ddaeth i'r brig yn fy marn i.

Roedd adolygiad **Menna Lili** o *Cynan: Bywyd Albert Evans Jones (1845-1970)* gan Gerwyn Williams yn sbec ddifyr iawn ar gyfrol ysgolheigaidd, a dyma oedd cryfder yr adolygiad i mi- Byddai'n codi chwilfrydedd ar ddarllenwyr y tu allan i'r byd academaidd i ddarllen cyfrol sy'n swnio fel perl.

Craffu ar *Saith Oes Efa* gan Lleucu Roberts oedd **Began.** Dyma adolygiad sydd wedi ei gynllunio a'i grefftio yn berffaith, gan ddenu'r darllenydd i fyd y llyfr- a heb gynnwys unrhyw *spoiler!* Teimlaf fod 'na stamp broffesiynol ar yr adolygiad yma, a stamp darllenydd brwd hefyd.

Beirniadaethau Eisteddfod Caerdydd 2022

Gobaith sy'n mynd â'r wobr gyntaf. Mae yma adolygiad bywiog a phwysig o *Byw yn fy Nghroen (gol. Sioned Erin),* cyfrol o ysgrifau gan bobol ifanc sy'n rhannu eu profiadau o fyw gyda chyflyrrau iechyd meddwl. Ceir yma flas o'r hyn a geir yn y gyfol, ond hefyd mae yma gydnabyddiaeth o bwysigrwydd yr ysgrifau yma.
Diolch i bawb a fentrodd i gystadllu, a llongyfarchiadau i **Gobaith.**

Llên Meicro

Mae poblogrwydd llên meicro (neu ffuglen fflach) wedi cynyddu'n aruthrol yma yng Nghymru ers cyhoeddi cyfrol arobryn Annes Glyn, *Symudliw* yn 2004. Doedd hi'n ddim syndod i mi felly fod cymaint wedi ymgeisio. Yn wir, mae'n bleser dweud 'mod i wedi cael blas ar bob un o'r 22 ymgais, ac er fy mod i'n amau'n gryf fod ambell awdur wedi cystadlu mwy nag unwaith (a gwych iawn eu bod nhw wedi gwneud!) mae hyn yn arwydd pendant nad ydy llên meicro fel ffurf yn beryg o fynd allan o ffasiwn.

Cafwyd ystod eang o straeon: rhai'n ddim ond yn frawddeg, rhai bron cymaint â 500 gair. Roedd y testun, *Protest,* yn un clyfar, ac roedd pob stori'n wahanol iawn i'w gilydd. Fe ddywedaf ambell air am fy ffefrynnau.

Mae *Adda* yn deall yn iawn sut i ddefnyddio ffurf llên meicro i'w lawn botensial, gan roi dim ond ambell frawddeg i'r darllenydd, ond digon i serio'r stori ar ein meddyliau. Cefais wefr go iawn o stori *Bygwth,* a gododd y domestig, cyffredin i dir tywyll (Roedd yr arddull yn f'atgoffa i o straeon byrion Roald Dahl.) Am baentio graffiti dros furlun yr ysgrifennodd *Coch,* ac fe ddaeth y darn yma'n agos iawn at y brig i mi, gan fod 'na galon a gofal a chymuned wedi eu cywasgu mor naturiol i gyn lleied o eiriau. Gwirionais hefyd ar waith *Saib,* oedd â bydoedd a chymeriadau a bywydau yn y mannau gweigion rhwng y geiriau.

Ond *Gobaith* sy'n mynd â hi eleni, a hynny am sawl rheswm. Mae 'na dywyllwch hollol naturiol i'r stori yma, a rhywbeth sy'n teimlo mor ddynol hefyd. Mae arddull moel y 'sgwennu'n gwrthgyferbynu'n hyfryd gyda digwyddiadau'r stori, ac mae'r ffordd glyfar yr ymatebodd yr awdur i'r testun yn ganmoladwy iawn hefyd.

Diolch o galon i bawb, a llongyfarchiadau mawr i ***Gwynt***.

Y Fedal Ryddiaith

Darn o ryddiaith heb fod dros 2000 o eiriau ar y testun 'Croesffordd'.
Daeth un deg pedwar ymgais i law. Er na chafwyd eiliad eistedd i fyny annisgwyl gan yr un o'r ymgeiswyr oedd safon y gystadleuaeth drwyddi draw yn dda. Bydd beirniadaeth ehangach ar bob un o'r cynigion i'w weld ar wefan Eisteddfod Caerdydd. Ond am y tro dyma ychydig sylwadau ar y tri darn daeth i'r brig gen i, sef Rachel, Y Dyn Dierth a Rhyd-y-wrach.

Rachel – Ceir dafodiaith bert, ddeheuol i'r stori hon gyda'r storïwr yn dal tipyn o'r naratif yn ôl wrth ei ffrwyno'n gelfydd, bron fel pe bai'r stori ei hun yn ddirgelwch i'w datrys. Hanes Jennifer Daniels sydd gyda ni, rhywun sy'n dioddef yn seiciatryddol, o bosib yn dilyn chwalu

perthynas. Mewn un sesiwn therapi gan Doctor Ellie mae'n dychwelyd yn ei phen i un o'i hoff draethau ym Mro Gŵyr. Nes ymlaen yn y stori mae'n dihuno mewn ysbyty wedi iddi syrthio ar ôl i'w chalon stopi. Rhaid i'r darllenydd weithio i ganfod arwyddocâd yr hyn sy'n mynd ymlaen, ond mae'r amwysedd a'r hiwmor slei, tafod yn y boch yn llwyddo i godi chwilfrydedd. Dylai'r darllenydd gymryd cyngor Dr Ellie am Jennifer a bod yn wyliadwrus o'i argraffiadau cyntaf -sy'n nodyn oddi wrth yr awdur i'r darllenydd hefyd, wrth gwrs!
Y Dyn Dierth – Stori am wr sydd wedi mynd i'r Efrog Newydd i ymchwilio i gyfraniad ei dad-cu yn yr Ail Ryfel Byd ac i ganfod yn fwy penodol sut y bu ei berthynas farw. Mae arddull cynnil i'r dweud ar y cyfan, er y gellid o bosib cwtogi ar rywfaint o'r deialog. Mae rhyw hiwmor ysmala i'r stori yma, sy'n ymdebygu i ymgais Rachel, gyda'r dafodiaith ddeheuol bert yn ddigon tebyg hefyd. Mae'r tro yng nghynffon y stori'n effeithiol ac yn groesffordd ym marn y traethydd am ei Dad-cu.
Rhyd-y-wrach – "Mae pob wyneb sydd wedi ei orthrymu'n edrych yn wahanol. Mae pob enaid wedi ei orthrymu'n debyg." Mae rhyw naws hudolus, chwedlonol bron i'r hanes hyn am ferch o'r enw Marged sydd mewn cwch ac yn ceisio torri'n rhydd o gaethiwed perthynas gorthrymus. Ceir reolaeth gadarn o'r deunydd â llais gwreiddiol, hynod, gyda hyd yn oed darnau graffeg rhwyfo cwch yn rhan o'r stori a chlawr arbennig i'r teitl. Trwy ddenu ysbrydion o'i gorffennol i'w chwch a chael gwared arnynt fesul un, gan gynnwys hen gariad llethol, mae Marged yn llwyddo i fentro ar groesffordd rhyddid, gan hyd yn oed newid ei henw i Morwen.
Ar ôl trafod gyda fy nghyd-feirniad, Manon, penderfynwyd taw Rachel sy'n cipio'r Fedal Ryddiaith eleni. Llongyfarchiadau.

Rhyddiaith y Dysgwyr

Darn o ryddiaith ar y testun 'Cartref'.

Dim ond dau ddarn daeth i law.

Darn o ryddiaith synfyfyriol yn llais TH Parry-Williams am fro ei febyd a gafwyd gan **AC.**

Cyfieithiad diddorol dros ben o lythyr gan Nelson Mandela at ei ddwy ferch tra'n garcharor oedd cynnig **Cysgod**.

Dwy ymgais glodwiw ond gwobrwyir **AC** am ei hyder a'i dyfeisgarwch wrth feddiannu 'llais' un o eiconau'r genedl.